

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

# CYNLLUN RHEOLI CYRCHFANNA CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

2022-2027

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

## CYFLWYNIAD

Ers cynhyrchu'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau (CRhC) diwethaf, mae newid sylweddol wedi digwydd ar lefelau byd-eang, cenedlaethol a lleol, gyda phandemig Covid-19, Brexit a chynnydd mewn costau byw. Mae pob un o'r rhain wedi bod â goblygiadau i'r diwydiannau twristiaeth a lletygarwch. Mae'r heriau presennol yn gyfle gwych i baratoi CRhC ar ei newydd wedd i helpu i symud tuag at adferiad.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) wedi nodi twristiaeth fel rhan o'i economi sylfaen gydag ymateb adfer sy'n cynnwys ffrydiau cyllido ychwanegol, prosiectau amwynder cyhoeddus, uwchraddio seilwaith a chefnogaeth i'r sector llety. Er bod llawer wedi newid, mae llawer o botensial ar gyfer y dyfodol hefyd.

Amcangyfrifwyd bod budd economaidd twristiaeth i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2019 yn £363 miliwn (STEAM, 2019). Cynllun Adfer Twristiaeth Visit Britain yw adfer lefelau 2019 o refeniw twristiaeth erbyn 2023.

Mae'r CRhC yn ddatganiad a rennir o fwriad i reoli Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel cyrchfan lwyddiannus i ymwelwyr rhwng 2022 a 2027. Bydd CBSP yn gweithio mewn partneriaeth â Croeso Cymru, endidau rhanbarthol fel Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, awdurdodau cyfagos a rhanddeiliaid allweddol fel cynghorau tref a chymuned, darparwyr llety, atyniadau twristiaeth, darparwyr gweithgareddau a busnesau lleol eraill sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr.

## Y CYD-DESTUN EHANGACH LEFEL GENEDLAETHOL

Mae 'Croeso i Gymru'[1] yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2020-2025. Yr uchelgais yw 'tyfu twristiaeth er lles Cymru' sy'n golygu twf economaidd sy'n sicrhau manteision i bobl a llefydd, gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a manteision iechyd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn greiddiol i'r strategaeth ac mae'n adlewyrchu'r angen am gael y cydbwysedd cywir rhwng twf economaidd a llesiant ehangach. Mae'n tynnu sylw at heriau sy'n ymwneud â gor-dwristiaeth, yr argyfwng hinsawdd a Brexit (wedi'i ategu nawr gan adfer o'r pandemig a chynnydd mewn costau byw). Mae'r strategaeth yn nodi bod y cyfeiriad yn y dyfodol yn ymwneud â ffrwyno'r economi ymwelwyr er budd ehangach.

Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer Cymru yw:

**Cynhyrchion a llefydd gwych –** prosiectau a arweinir gan Croeso Cymru, buddsoddiad cyfalaf a arweinir gan ddiwydiant, creu llefydd integredig, digwyddiadau cartref rhyngwladol, gan gynnwys digwyddiadau busnes

**Profiadau ymwelwyr o safon –** sylfeini gwych, lletygarwch rhagorol drwy raddio, twristiaeth bwyd, pobl fedrus, timau sy'n cael eu harwain gan gynnyrch

**Brand arloesol Cymru Wales –** brand cenedl cryfach, marchnata hyblyg gyda ffocws allfrig, un ymgyrch a blynyddoedd dwy thema, diwydiant digidol yn gyntaf, 'Canolfan Ragoriaeth' Croeso Cymru

**Sector brwd a bywiog –** ymgysylltu'n effeithiol â diwydiant drwy lais diwydiant ar y cyd, gwell data a dirnadaeth yn seiliedig ar anghenion y diwydiant, swyddogaeth strategaeth a pholisi gryfach, a Chroeso Cymru hyblyg ac ymatebol.

**Mae dull dwy elfen o weithredu wedi'i nodi i ddehongli Cymru mewn ffordd ffres, berthnasol a chyfoes, i gadw'r ymwelwyr presennol ac i ddenu cynulleidfaoedd newydd ac yn y dyfodol.**

Mae'r ddwy elfen yma wedi'u categoreiddio fel 'Bro' (sy'n golygu cymuned leol, ymdeimlad o bwrpas a lle) a 'Byd' (sy'n golygu lefelau rhyngwladol o safonau ansawdd ac uchelgais). Mae'r elfen 'Bro' yn arbennig o berthnasol i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n anelu at gyflawni'r canlynol:

- profiadau ag ymdeimlad Cymreig o le
- cymunedau cyfeillgar, croesawgar
- arddangos bwyd a diod o Gymru
- cyrchfannau gwyrdd, glân
- sbarduno economïau a chadwyni cyflenwi lleol
- hygyrch a chynhwysol, gan roi gwerth am arian
- ar agor drwy gydol y flwyddyn, ar draws pob rhan o Gymru
- tyfu busnesau cartref
- dathlu'r Gymraeg

Ymhlith yr heriau a'r rhwystrau a nodwyd ar lefel genedlaethol, sydd hefyd yn berthnasol i gyd-destun Pen-y-bont ar Ogwr, mae nifer a phatrymau yr ymwelwyr, yn enwedig yr angen am wneud y gorau o ystadegau ymwelwyr mewn perthynas â thymoroldeb, dosbarthiad a gwariant; a phrofiad ymwelwyr, yn enwedig yr angen am gael 'y sylfeini' yn gywir.

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur drwy gyfres o fetrigau – gan gynnwys gwariant ymwelwyr dros nos, cyflogaeth yn y sector twristiaeth, dosbarthiad tymhorol ymwelwyr a'u gwariant, tueddiadau digidol fel archebu a chwilio am wyliau yng Nghymru er enghraifft. Mae'r dulliau eraill yn cynnwys datblygu dull arolygu newydd i Croeso Cymru.

## LEFEL LEOL

Yn ddiweddar mae CBSP wedi cynhyrchu Strategaeth Economaidd newydd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Y weledigaeth ar gyfer dyfodol economaidd y Sir yw cyflawni ei photensial drwy sicrhau gweithlu hynod fedrus, seilwaith cysylltedd cadarn a diwylliant busnes ffyniannus, gan feithrin amgylchedd sy'n diwallu anghenion cymdeithasol ehangach ei holl bobl ac mewn ffordd gynaliadwy. Nodir yr uchelgeisiau canlynol i droi'r weledigaeth yn realiti, ac mae pob un ohonynt yn berthnasol i economi ymwelwyr Pen-y-bont ar Ogwr:

- cefnogi twf busnes
- meithrin gallu ar draws busnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r gweithlu ehangach
- mynd i'r afael â phrinder sgiliau
- ysgogi swyddi sgiliau uchel yn economi'r dyfodol a hybu integreiddio rhanbarthol
- symud i economi carbon isel
- cadw a gwella cyfalaf ecolegol / naturiol
- addysg sy'n ddiogel ar gyfer y dyfodol
- cryfhau rôl y gwasanaeth cyhoeddus a'r economi sylfaen

Mae'r Strategaeth yn trefnu'r camau gweithredu a argymhellir o dan bedwar piler, er mwyn denu diwydiant amrywiol mewn amgylchedd byd-eang hynod gystadleuol a goresgyn heriau economaidd-gymdeithasol sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn.

**CYSYLLTEDD A SEILWAITH**

**CEFNOGI BUSNES A'R GWEITHLU**

**SECTOR CYHOEDDUS A'R ECONOMI SYLFAEN**

**ECONOMI CARBON ISEL**



Mae Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Pen-y-bont ar Ogwr 2018 i 2033, sy'n gynllun newydd, yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gan CBSP a bydd yn ganolog i ddatblygu atyniadau twristiaeth a seilwaith perthnasol yn ogystal â diogelu asedau ac adnoddau presennol. Mae'r CDLl yn amlinellu'r mentrau adfywio a chreu llefydd tirnod allweddol ar gyfer canol trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Mae hefyd yn cynnig rhestr gynhwysfawr o amcanion strategol i helpu i wella cymeriad lleol aneddiadau llai, gwella seilwaith gwyrdd a glas, gwneud y gorau o integriti cysylltiadau trafnidiaeth a theithio llesol, ac annog cymysgedd cytbwys o ddatblygiadau amrywiol.

## AM BEN-Y-BONT AR OGWR

**Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal amrywiol sy'n ymestyn o'r ucheldir, dyffrynnoedd garw yr hen lofeydd yn y gogledd, i lawr i gefn gwlad mwynach ac arfordir atyniadol yn y de.**

Disgrifir y tair ardal nodedig yma:

1. mae Cymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr yn ddyffrynnoedd afon cul sy'n cydgyfarfod yn Sarn ac yn ymestyn tua'r gogledd am dros saith milltir. Gyda Maesteg yn brif anheddiad, mae'r cymoedd yn gartref i hen gymunedau glofaol gyda threftadaeth ddiwydiannol nodedig a golygfeydd naturiol. Un ased nodedig yw'r Llwybr Celtaidd sy'n dilyn ffin ddeheuol yr ardal hon.
2. mae Pen-y-bont ar Ogwr ei hun yn dref farchnad ganolig ei maint a wasanaethir gan goridor yr M4 o'r Pîl i Bencoed. Mae canol tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys crynhoad sylweddol o weithgarwch cyflogaeth gan gynnwys gwestai rhad. Mae'r gweithgareddau twristiaeth yn cynnwys siopa (yn arbennig ymweliadau â Siop Ddylunwyr McArthurGlen ar gyrion gogleddol canol y dref) neu fynychu digwyddiadau a gynhelir yn y dref ei hun.
3. mae Porthcawl yn gyrchfan glan môr draddodiadol fechan a arferai fod yn borthladd ar gyfer diwydiannau haearn a glo'r cymoedd. Mae'r dref yn gartref i bobl sy'n mwynhau mynd i'r traeth a thwristiaid hamdden gyda'i rhwydwaith o saith bae, traethau a systemau twyni helaeth yng Nghynffig i'r gorllewin a Merthyr Mawr i'r dwyrain.

Mae hamdden awyr agored yn thema gref i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr oherwydd cymysgedd y Sir o draethau, tirwedd wledig, afonydd a gwarchodfeydd natur. Mae'r asedau arfordirol yn hwyluso amrywiaeth eang o **chwaraeon dŵr** gan gynnwys syrffio, barcudsyrffio, gwyntsyrffio, caiacio, hwylio, pysgota môr, nofio a gyrru cychod modur o wahanol fathau. Mae Porthcawl yn arbennig yn dangos ei chryfder fel cyrchfan syrffio. Yn ystod y degawd diwethaf, mae Porthcawl fel tref wedi cael ei thrawsnewid yn sylweddol i ddenu syrffwyr a chodi ei phroffil ymhellach yn erbyn lleoliadau fel Ceinewydd neu Benrhyn Gŵyr. Mae Porthcawl wedi elwa'n fawr o ddatblygiad Canolfan Chwaraeon Dŵr Rest Bay, ac mae gwelliannau yn y dyfodol wedi'u clustnodi o dan Strategaeth Creu Llefydd Porthcawl (er enghraifft, datblygu Cosy Corner).

Mae gan **golff** hanes maith ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda pherfformiad cadarn i'w weld dros sawl degawd. Mae gan Sir Pen-y-bont ar Ogwr rwydwaith o nifer o gyrsiau golff sy'n cynnwys golygfeydd godidog ar draws Môr Hafren ac sydd o gynllun pencampwriaeth safonol. Yn fwyaf nodedig, mae'r Royal Porthcawl yn y safle cyntaf yng Nghymru2 ac yn safle 453 yn y byd ac mae wedi cynnal nifer o bencampwriaethau o bwys rhyngwladol. Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dod i'r amlwg fel cyrchfan golff gynaliadwy a blaenllaw yng Nghymru ac mae'n gartref i ddau gwrs golff wedi'u hardystio gan y GEO (allan o 25 ledled y DU), sef y Royal Porthcawl a Chlwb Golff Pîl a Chynffig.



## Mae'r cynlluniau a'r cynigion cyffrous ar gyfer y dyfodol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys y canlynol:

– **cynlluniau trawsnewid** i adfywio'r ddarpariaeth manwerthu a hamdden yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr fel yr amlinellir ym Mhrif Gynllun Pen-y-bont ar Ogwr.

– adnewyddu **Neuadd y Dref Maesteg** ac adleoli marchnadoedd o dan fannau awyr agored cysgodol i gynnig y potensial ar gyfer canolbwynt diwylliannol i'r ardal leol ac yn ehangach, gan sicrhau manteision digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol i genedlaethau'r dyfodol.

– cynlluniau i drawsnewid glan y môr Porthcawl drwy **Strategaeth Creu Llefydd Harbwr Porthcawl**, datblygu cyfleusterau hamdden a llety newydd a gwella cysylltedd trafnidiaeth a theithio llesol yn y dref. Megis dechrau mae'r cynlluniau hyn ac nid ydynt wedi'u cwblhau nac wedi'u hymrwymo, ond maent yn darparu gweledigaeth strategol glir i drawsnewid Porthcawl drwy gynyddu capasiti, gwella cysylltedd, a chryfhau'r busnesau a'r gwasanaethau lleol i ategu'r gweithgareddau twristiaeth ar hyd yr arfordir.

– mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau ar adfer safle Cosy Corner ym Mhorthcawl drwy raglen **Ffocws Buddsoddiad Cyrchfan Porthcawl (PRIF)** sy'n cael ei chyllido gan yr UE, sy'n cynnwys mannau cymunedol a manwerthu ac sy'n ategu prosiectau adfywio eraill fel y marina newydd, amddiffynfeydd môr newydd ac Adeilad Jennings sydd wedi'i adnewyddu yn ddiweddar.

– gall cynigion twristiaeth o fewn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos gynrychioli cyfleoedd posibl sylweddol i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr hefyd o safbwynt cyflogaeth, yn enwedig y caniatâd cynllunio diweddar sydd wedi'i ddyfarnu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar gyfer cyrchfan antur yng Nghwm Afan.

## PEN-Y-BONT AR OGWR MEWN RHIFAU

| | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| Effaith Economaidd | £345.80m | £350.42m | £362.69m | £146.33m | £225.14m |
| Cyfanswm yr ymwel wyr | 3.9m | 3.7m | 3.7m | 1.4m | 2.08m |
| Cyfran sy n ymwelwyr dydd | 85% | 84% | 84% | 86% | 85% |
| Nifer mewn swyddi twristiaeth | 4,277 | 4,061 | 4,242 | 2,156 | 2,482 |

**Tua 16,000 o welyau(10% â gwasanaeth)**

**Hyd arhosiad ar gyfartaledd - llai na 4 diwrnod**

### Yr atyniadau ymwelwyr gorau ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar**

**Siop Dylunwyr McArthur Glen**
3.9 miliwn o ymwelwyr

**Parc Gwledig Bryn garw**
242,549 o ymwelwyr

**Rest Bay**
115,087 o ymwelwyr, yn seiliedig ar ddata meysydd parcio

### Key events in Bridgend County Borough

**Elvis Festival in Porthcawl**
35,000 visitors

**Porthcawl 10K Run**
12,000 visitors

**Wartime Brigend**



*STEAM data, 2021; ** based on 2019 data

## TUEDDIADAU’R FARCHNAD

**Teithio domestig:** mae teithio domestig wedi dod yn duedd fawr yn dilyn y pandemig ac mae wedi dylanwadu ar bobl i chwilio am berlau cudd o fewn cyrraedd agos neu chwilio am safle lleol ar gyfer ymweliadau cyson.


**Hamdden, ffordd o fyw a lles:** i wneud iawn am yr anweithgarwch corfforol sy’n gysylltiedig â gweithio o bell a ffordd o fyw fodern, mae mwy o dwristiaid yn chwilio am hamdden egnïol neu ffyrdd o ailgysylltu â natur, er enghraifft, drwy wersylla a hamdden awyr agored. Mae gweithgareddau fel beicio, cerdded, chwaraeon dŵr a golff yn nodedig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ac yn debygol o dyfu. Bu galw mawr am ansawdd bywyd uwch, bwyta glân, a byw’n iachach. Byddai’n well gan ymwelwyr fwynhau gwasanaeth o ansawdd uwch neu gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy unigryw, hyd yn oed os yw’n golygu teithio yn ystod y tymhorau allfrig.

**Eco deithio:** mae pryder cynyddol am argaeledd opsiynau moesegol ac amgylcheddol ymwybodol. Ymwybyddiaeth gynyddol o gynhyrchu ôl troed carbon sy’n gysylltiedig â chludiant, ymweld â chyfleusterau o dan reolaeth gynaliadwy, a phrynu bwyd a chynhyrchion gan ddarparwyr sy’n ymwybodol o’r amgylchedd.

**Profiad lleol, dilys:** un duedd sy’n dod i’r amlwg yw aros mewn cyrchfan fel person lleol. Mae galw cynyddol am ymdoddi â phobl leol mewn gwyliau, mewn digwyddiadau cymdeithasol, cael gwersi crefft / coginio ac archwilio gweithgareddau hamdden. Mae dewisiadau bwyd a bwyta yn symud tuag at fwyd a diod lleol.

**Datblygiadau technolegol:** mae datblygiadau technolegol yn helpu ymwelwyr i gael gwasanaeth symlach a mwy effeithlon i brynu cynhyrchion twristiaeth. Mae’r enghreifftiau’n cynnwys taliadau digyswllt, cyfryngau cymdeithasol a marchnata ar blatfformau fideo, ‘Internet of Things’, marchnata personol a systemau adolygu.






## CRYFDERAU, GWENDIDAU, CYFLEOEDD A BYGYTHIADAU

Wrth baratoi'r Cynllun Rheoli Cyrchfannau, bu nifer o sgyrsiau gyda rhanddeiliaid – rhwng amrywiol adrannau CBSP, gyda chynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned, darparwyr llety, atyniadau twristiaeth, darparwyr gweithgareddau a busnesau lleol eraill sy'n cefnogi'r economi ymwelwyr. Mae ystod o gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau wedi'u nodi, fel y dangosir yma.

### CRYFDERAU:

- Asedau naturiol gan gynnwys traethau arobryn, arfordir, twyni tywod, gwarchodfeydd natur a nodweddion tirwedd y tri chwm.
- Y cysylltiad cryf rhwng y gwahanol rannau o'r Fwrdeistref Sirol a golff a syrffio, yn arbennig Porthcawl.
- Y dreftadaeth ddiwydiannol sy'n gysylltiedig â'r tri chwm.
- Prisiau cystadleuol am lety ac amwynderau.
- Atyniadau ymwelwyr amlwg fel Maes Carafanau Bae Trecco ac Allfa Dylunwyr McArthurGlen.
- Diddordeb cynyddol yn y ddarpariaeth bwyd a diod yng nghanol y trefi, yn enwedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr.
- Llwybrau hamdden a gydnabyddir yn genedlaethol, er enghraifft, rhannau o Lwybr Arfordir Cymru a'r Llwybr Celtaidd.
- Agosrwydd at leoliadau eraill fel Caerdydd ac Abertawe ar gyfer ymweliadau dydd.
- Mynediad hwylus mewn car a thrên yn arbennig

### GWENDIDAU:


- HCyfran uchel o ymwelwyr dydd.
- Proffil economaidd-gymdeithasol – diffyg cyfres o sgiliau, gweithgareddau busnes a masnachol i feithrin profiad diwylliannol cyfoethocach a darparu lefel uwch o gyfleustra.
- Diffyg gweithgareddau twristiaeth gynaliadwy ar gyfer y nifer cynyddol o deithwyr cyfrifol.
- Diffyg cyfleusterau arddangos dan do ac atyniadau lle nad yw tywydd gwael yn effeithio ar y profiad.
- Diffyg cyfleusterau sylfaenol fel dodrefn stryd, goleuadau, toiledau cyhoeddus (gan gynnwys toiledau i'r anabl), biniau a darpariaeth hygyrchedd fel rampiau / mynediad i gadeiriau olwyn.
- Diffyg hyrwyddo ar-lein ar y cyfleoedd presennol sy'n cysylltu asedau hanesyddol lleol yn y Fwrdeistref Sirol, er gwaethaf argaeledd teithiau cylch / treftadaeth.
- Nid yw'r atyniadau wedi'u cysylltu'n dda ac nid ydynt yn cael eu hyrwyddo ar y cyd o dan themâu unigol.
- Nid yw canol y prif drefi'n gallu cystadlu â llefydd eraill fel cyrchfannau ar eu liwt eu hunain – er enghraifft, nid oes ganddynt amrywiaeth o ddewisiadau bwyd / economi nos / profiad manwerthu.

## CYFLEOEDD:

- Gwell cyfathrebu digidol, a gefnogir yn bennaf gan wefan Croeso Pen-y-bont ar Ogwr.
- Diddordeb parhaus a chynyddol mewn gweithgareddau hamdden fel golff, chwaraeon dŵr, cerdded a beicio.
- Hyrwyddo Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel cyrchfan golff o bwys, yn cynnwys grŵp o gyrsiau golff rhagorol a gefnogir gan wasanaethau llety lleol. Marchnata cyrsiau golff wedi'u hardystio gan GEO fel elfen wahaniaethu.
- Datblygu rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau a gwyliau blynyddol sy'n ymestyn drwy gydol y flwyddyn.
- Datblygu llwybrau treftadaeth yn y Sir ac o'i chwmpas, gan ganolbwyntio ar drefi allweddol a'r tri chwm.
- Buddsoddiad pellach mewn, a datblygu, atyniadau ymwelwyr fel Cwt 9. Nid yw hyrwyddo pellach yn ymarferol nes bod y capasiti yn fwy.
- Adfywio canol trefi Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl drwy'r Prif Gynllun a'r Strategaeth Creu Llefydd / Ffocws Buddsoddiad Cyrchfan Porthcawl yn y drefn honno.
- Cyfle i dyfu'r economi nos yng nghanol y trefi, a thrwy hynny gynyddu nifer yr ymwelwyr
- Marchnad gynyddol ar gyfer perchnogi a llogi cartrefi modur / faniau gwersylla.
- Atyniadau a gwasanaethau cymdeithasol-gynhwysol sy'n darparu ar gyfer pobl â gofynion penodol, fel mynediad i bobl ag anabledd neu salwch neu amgylchedd sy'n gyfeillgar i anifeiliaid anwes.
- Gwelliannau mewn cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus a llwybrau teithio llesol, yn enwedig ym Mhorthcawl a'r cyffiniau.
- Gosod mwy o orsafoedd gwefru cerbydau trydan (EV) ac ymgorffori mesurau i hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy.
- Hwyluso / dileu rhwystrau i Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel lleoliad ffilmio ar gyfer y diwydiant cyfryngau, ac wedyn hyrwyddo hynny.
- Cyfleoedd i weithio'n agosach gydag awdurdodau cyfagos, er enghraifft gyda CBSCNPT mewn perthynas â chyfleoedd cyflogaeth a gyflwynir gan y gyrchfan antur arfaethedig yng Nghwm Afan.
- Cyfleoedd pellach i weithio'n agosach ag endidau rhanbarthol, gan gynnwys De Cymru, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd, i ddatblygu a hyrwyddo twristiaeth yn gyfannol.
- Cyfleoedd i greu llwybr marchogaeth cylch, gan gysylltu ag awdurdodau lleol cyfagos.
- Annog mwy o fusnesau i gymryd rhan mewn gweithgareddau rheoli a marchnata cyrchfannau, gan helpu busnesau i weld beth yw gwerth tyfu / gwella'r economi ymwelwyr iddynt.
- Ehangu'r llety a gynigir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynnwys datblygiad gwestai ychwanegol a darpariaeth deithiol, yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol.
- Arwyddion, marciau a brandio ffisegol ar gyfer atyniadau ac amwynderau.
- Gall y 'sylfeini' fod ar goll – e.e. lefelau isel o lanweithdra ar strydoedd, mewn toiledau cyhoeddus ac o ran dodrefn stryd, gwasanaethau achub bywyd cyfyngedig, enghreifftiau o brofiad gwael gan ymwelwyr.
- Capasiti cyrchfannau pot mêl fel Porthcawl o ran tagfeydd ymwelwyr.
- Gallai gostyngiad posibl mewn cyfleusterau gwersylla a charafanau teithiol yn y Fwrdeistref Sirol effeithio ar nifer yr ymwelwyr a gwariant cysylltiedig.

## BYGYTHIADAU :

- Traethlin yn symud am yn ôl a'r posibilrwydd o golli nodweddion amwynder arfordirol allweddol.
- Llai o sgôp ar gyfer cyfleoedd cyllido mewn seilwaith lleol a rhanbarthol gyda cholli cyllid Ewropeaidd
- Effeithiau parhaus sy'n effeithio ar yr economi ymwelwyr a'r economi ehangach o ganlyniad i bandemig Covid-19, Brexit ac ansicrwydd economaidd presennol, gan gynnwys cynnydd mewn costau byw.
- Cystadleuaeth gan gyrchfannau eraill, yn arbennig Bro Morgannwg a Phenrhyn Gŵyr fel cyrchfannau traeth, Castell-nedd Port Talbot fel cyrchfan hamdden (beicio mynydd) a threfi / pentrefi sydd â darpariaeth fwy cyflawn (er enghraifft, y Bont-faen) neu ddarpariaeth llety fwy datblygedig (er enghraifft, datblygu gwesty o safon).
- Lefelau uchel o ddibyniaeth ar geir, gan arwain at broblemau parcio ceir, tagfeydd traffig a diogelwch cerddwyr ger atyniadau mawr.
- Pwysau sy'n gysylltiedig â gor-dwristiaeth e.e. cynnal a chadw llwybrau cerdded / beicio a lefel ymwybyddiaeth pobl o sut i ddefnyddio cefn gwlad.
- Colli'r gymdeithas dwristiaeth leol, gan achosi anawsterau o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid.



## YSTYRIAETHAU CYFFREDINOL AR GYFER BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

### Dosbarthiad daearyddol cyfleoedd a thueddiadau tymhorol / dyddiol ymwelwyr

Nod cyffredinol y CRhC yw cyflawni twf economaidd hyfyw y gellir ei ddiffinio, yng nghyd-destun rheoli cyrchfannau, fel gwariant cyson gan ymwelwyr drwy gydol y flwyddyn, wedi'i ddosbarthu'n gyfartal ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae dosbarthiad teg ar fanteision economaidd yn cynnal llesiant y trigolion drwy liniaru tagfeydd mewn safleoedd 'pot mêl' fel Porthcawl, ac adfywio ardaloedd yr ymwelir â hwy yn llai aml. Gellir cyflawni hyn drwy gynyddu ymweliadau a gwariant y tu allan i oriau brig er mwyn gwastatáu cyfnodau brig a thawel tymhorol / wythnosol.

### Proffil ymwelwyr

Mae proffilio ymwelwyr ar gyfer rhanbarthau Cymoedd De Cymru ac Arfordir Treftadaeth a Chefn Gwlad Morgannwg (rhanbarthau Croeso Cymru lle mae ardaloedd o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi'u lleoli) wedi nodi bod y marchnadoedd allweddol yn cynnwys cyplau sy'n archwilio golygfeydd, cyplau archwilio diwylliannol hŵn, archwilwyr heb gael teulu eto a theuluoedd ymwybodol o'u cyllideb4. Mae eu disgwyliadau cychwynnol o dripiau yn cynnwys cymysgedd o 'arfordir gwledig', 'cefn gwlad neu bentref' neu 'dref arfordirol / glan môr draddodiadol'. Mae'r CRhC yn ceisio sicrhau gwariant uwch gan ymwelwyr yn hytrach na dim ond niferoedd uwch o ymwelwyr. Un o'r ffyrdd o gyflawni hyn yw drwy gynyddu cyfran yr ymwelwyr sy'n aros dros nos neu am gyfnod hwy mewn llety o safon a gefnogir gan ddefnyddiau tir masnachol.

### Cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth yn y gyrchfan ac yn rhanbarthol / cenedlaethol

Mae diffyg partneriaeth twristiaeth weithredol wedi'i nodi fel gwendid ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n oddefol â busnesau twristiaeth, yn hanfodol er mwyn cydlynu rhaglen hirdymor i wella'r ddarpariaeth dwristiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae profiad blaenorol5 wedi tynnu sylw at y ffaith bod perchnogion busnesau twristiaeth lleol yn hynod frwdfrydig ynghylch datblygu cynnyrch cynhwysfawr a / neu hyrwyddo darpariaeth dwristiaeth Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn wedi cael ei effeithio gan lai o adnoddau yn y sector cyhoeddus ac absenoldeb fframwaith cadarn i sicrhau trafodaethau rheolaidd. Mae angen cefnogaeth ar gyfer fframwaith clir i feithrin trafodaethau adeiladol parhaus.

### Cynyddu cyfran y farchnad o wariant twristiaeth Cymru

Mae Croeso Cymru yn canolbwyntio ar godi gwerth y gwariant a gynhyrchir fesul ymweliad yn hytrach na nifer yr ymwelwyr. Yn ôl 'Croeso i Gymru 2022-2025', gellid cyflawni cynnydd yng ngwerth y gwariant ar draws pob agwedd ar ddiwydiannau sy'n rhyngddibynnol ar dwristiaeth drwy ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau o ansawdd uchel i godi proffil cyffredinol Cymru fel cyrchfan a thrwy hynny ddarparu ar gyfer mwy o ymwelwyr sy'n aros. Yn ogystal, mae Croeso Cymru yn ceisio denu ymwelwyr rhyngwladol, yn enwedig o America a'r Almaen, sydd â diddordeb mewn gweithgareddau awyr agored o bosibl.

Ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn benodol, bu galw cyson am nwyddau a gwasanaethau defnyddwyr o ansawdd uchel a allai ategu defnydd estynedig neu aml o'i hatyniadau twristiaeth, yn fwyaf nodedig ei thraethau a'i chyrsiau golff arobryn. Mae llety gwesty, profiadau bwyta unigryw, teithiau grŵp bychain a gweithgareddau awyr agored wedi'u nodi fel enghreifftiau a allai ddenu mwy o ymwelwyr sy'n aros a chael effaith gadarnhaol ar werth y gwariant.

**Gweledigaeth:** Llunio economi ymwelwyr ffyniannus sy'n dathlu hunaniaeth unigryw Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

## CYNNIG CRAIDD PEN-Y-BONT AR OGWR:

- Traethau, arfordir ac ardaloedd naturiol eithriadol
- Treftadaeth a thirlun diwydiannol
- Trefi glan môr traddodiadol
- Profiad manwerthu dylunwyr
- Hamdden awyr agored – golff, chwaraeon dŵr, cerdded a beicio

## DULL GWEITHREDU:

- Cynyddu cyfran y farchnad o wariant twristiaeth Cymru
- Dangos rhagoriaeth
- Dosbarthu buddion yn fwy cyfartal – yn ddaearyddol a thrwy gydol y flwyddyn

## NODAU:

yn cyd-fynd â rhai Croeso Cymru

Twf economaidd sy'n cyflawni manteision i bobl a llefydd

- Cynaliadwyedd amgylcheddol
- Cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol
- Gwrando ar drigolion, ymwelwyr a busnesau

## AMCANION BRAND:

yn cyd-fynd â rhai Croeso Cymru

- Hyrwyddo ein statws
- Synnu ac ysbrydoli
- Newid canfyddiadau
- Bod yn Ben-y-bont ar Ogwr yn ddiamheuol

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND County Borough Council

## MATHAU O YMWELWYR:

- Ymwelwyr dydd
- Ymwelwyr sy'n aros
- Diddordeb arbennig – treftadaeth / hamdden
- Masnach a gweithredwyr

## EIN HYMWELWYR:

**Proffil:** Cynyddu ymweliadau aros

**Tymoroldeb:** Gweithgareddau hamdden drwy gydol y flwyddyn

**Gwariant:** Gwariant cynyddol ymwelwyr oherwydd ymweliadau hirach

**Dosbarthiad:** Dalgylch 2 i 3 awr Ymweliadau dydd o Gymru

## BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL AR GYFER PEN-Y-BONT AR OGWR:

- Cynhyrchion a llefydd gwych
- Profiad ymwelwyr o safon
- Codi Proffil
- Ymgorffori twristiaeth gynaliadwy

## BLAENORIAETHAU MASNACHOL:

- Ffocws ar lety
- Gwella'r sylfeini
- Partneriaethau masnachol

## GWEITHREDU:

- Dull partneriaeth o weithredu o'r newydd
- Cydweithredu â fforymau a strwythurau presennol
- Annog ymwneud gan fusnesau a chymunedau



## EIN GWELEDIGAETH

Y weledigaeth ar gyfer rheoli cyrchfannau Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y pum mlynedd nesaf yw:

> **“Lunio economi ymwelwyr ffyniannus sy’n dathlu hunaniaeth unigryw Sir Pen-y-bont ar Ogwr”**

Cefnogir y weledigaeth hon gan nodau sy’n cyd-fynd â rhai Croeso Cymru, sef:

1. Creu twf economaidd sy’n cyflawni manteision i bobl a llefydd
2. Hyrwyddo cynaliadwyedd amgylcheddol
3. Darparu cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd
4. Ymgorffori manteision iechyd (er enghraifft, drwy hyrwyddo teithio llesol, gweithgarwch corfforol neu les meddyliol sy’n gysylltiedig â phrofi’r amgylchedd naturiol)

Mae’r adrannau canlynol yn nodi ymhellach y rhesymeg y tu ôl i bob un o’r blaenoriaethau hyn, ac yn nodi camau gweithredu perthnasol i’w cymryd yn ystod cyfnod y Cynllun Rheoli Cyrchfannau.

## EIN BLAENORIAETHAU

Er mwyn gwireddu’r weledigaeth hon, bydd y Cynllun Rheoli Cyrchfannau yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:



**Cynhyrchion a Llefydd Gwych**

Cynyddu’r amrywiaeth o lety o safon

Datblygu cynnyrch y gellir ei archebu drwy gydol y flwyddyn

Hyrwyddo creu llefydd

Cynnal Rhaglen o Ddigwyddiadau Craidd




**Profiad Ymwelwyr o Safon**

Ffocws ar ‘Sylfeini Safonol’

Hyfforddiant sgiliau

Pwyslais ar fwyd a diod lleol

Profiadau dilys



**Codi Proffil**

Gwella amlygrwydd Croeso Pen-y-bont ar Ogwr

Negeseuon cadarn mewn atyniadau allweddol

Brand nodedig

Pen-y-bont ar Ogwr fel lleoliad set ar gyfer y diwydiant teledu / ffilm



**Ymgorffori Twristiaeth Gynaliadwy**

Hyrwyddo teithio llesol

Cefnogi arferion busnes cynaliadwy

Arloesi ar gyfer safonau amgylcheddol uchel

## CYNHYRCHION A LLEFYDD GWYCH

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr lawer i'w ddathlu o ran ei chynhyrchion twristiaeth, gan gynnwys ei harfordir, ei hamgylchedd naturiol, ei threftadaeth ddiddorol, atyniadau arwyddocaol i ymwelwyr ac amrywiaeth o chwaraeon awyr agored a gweithgareddau o bob math. Fodd bynnag, mae lle i ehangu, gwella a llenwi bylchau. Er enghraifft, mewn perthynas â llety i ymwelwyr, lle mae gorbwyslais ar hyn o bryd ar lety rhad a chyfleoedd i ddod â llety â gwasanaeth o safon i mewn yn ogystal â chefnogi twf pellach mewn mannau gwersylla a glampio. Mae cynigion mawr wrthi'n cael eu datblygu neu wedi cael eu lansio i hyrwyddo creu llefydd ym mhrif drefi'r Fwrdeistref Sirol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Maesteg. Bydd integreiddio rheoli cyrchfannau yn yr ymyriadau hyn yn hollbwysig. Er bod cynnal rhaglen o ddigwyddiadau yn heriol ar hyn o bryd, mae manteision creu galw ychwanegol gan ymwelwyr y tu allan i'r tymor yn cael eu cydnabod. Yn olaf, mae pwyslais ar gynnyrch y gellir ei archebu yn rhoi cyfle i ledaenu budd economaidd a chyfleoedd busnes yn ehangach ar draws y Fwrdeistref Sirol, yn ogystal â chreu mwy o sicrwydd i fusnesau twristiaeth yn ystod yr adfer o'r pandemig.

**PILER 1: CYSYLLTEDD A SEILWAITH**

**PILER 2: CEFNOGI BUSNES A'R GWEITHLU**

**PILER 3: SECTOR CYHOEDDUS A'R ECONOMI SYLFAEN**

**PILER 4: ECONOMI CARBON ISEL**



### TABL 1: Cynllun Gweithredu Cynnyrch a Lleoedd Gwych

| Cam Gweithredu | Partner/iaid Allweddol | Amserlen | Dolen i Strategaeth Economaidd CBSP |
|---|---|---|---|
| Adolygu a monitro'r stoc llety ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rheolaidd a chynnal trafodaethau gweithredol gyda'r rhai sy'n ceisio ehangu neu sefydlu datblygiadau llety twristiaeth newydd i gael canlyniadau gwell. | CBSP / Sector Preifat | Adolygiad blynyddol | Piler 3 |
| Annog creu opsiynau llety i ymwelwyr sy'n cefnogi Sir Pen-y-bont ar Ogwr gyfan a'r rhanbarthau cyfagos er mwyn cael yr effaith orau bosibl ar yr economi ymwelwyr. | CBSP / Sector Preifat / Awdurdodau Cyfagos | Erbyn Blwyddyn 5 | Piler 1<br>Piler 3 |
| Cynnal archwiliad cynhwysfawr, seiliedig ar fap, o gynhyrchion twristiaeth yn y Fwrdeistref Sirol. | CBSP | Blwyddyn 1 | Piler 1 |
| Cysylltu'n agos ag Adran Gynllunio CBSP mewn perthynas â chynigion ar gyfer newid defnydd / colli llety presennol i ymwelwyr. | CBSP | Parhaus | Piler 1<br>Piler 3 |
| Cefnogi busnesau gyda gwybodaeth berthnasol achyfleoedd cyllido i alluogi buddsoddiad ac ehangu lle bo hynny'n briodol, yn enwedig y rhai a fyddai'n annog ymwelwyr sy'n aros (er enghraifft, cyfleusterau glampio neu lety hunanarlwyo). | CBSP / Croeso Cymru | Parhaus | Piler 1<br>Piler 3 |
| Monitro'r stoc o welyau a'r cyfraddau defnydd yn flynyddol. | CBSP | Adolygiad blynyddol | Piler 1 |
| Denu digwyddiadau newydd a datblygu digwyddiadau sy'n bodoli eisoes gyda'r nod hirdymor o grwpio a hyrwyddo digwyddiadau fesul thema a thymor er mwyn gwneud y gorau o atgyfeirio, ailymweliadau ac adnoddau. Hwyluso datblygiad digwyddiadau drwy gydweithio rhwng trefnwyr digwyddiadau a CBSP i fanteisio ar gyfleoedd yn ystod y tymhorau allfrig. | CBSP / Trefnwyr Digwyddiadau | Parhaus | Piler 1 |

| Cam Gweithredu | Partner/iaid Allweddol | Amserlen | Dolen i Strategaeth Economaidd CBSP |
|---|---|---|---|
| Cynnal cysylltiad agos ag adrannau CBSP mewn perthynas â chynnydd Prif Gynllun Pen-y-bont ar Ogwr a chyfleoedd adfywio Porthcawl. | CBSP | Parhaus | Piler 1<br>Piler 3<br>Piler 4 |
| Gweithio gyda phartneriaid a'r gymuned i gryfhau a hyrwyddo'r hyn a gynigir gan Neuadd y Dref Maesteg fel canolbwynt diwylliannol a sbardun ar gyfer twristiaeth yn y Cymoedd. | CBSP / Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol AWEN | Blynyddoedd 2 i 5 | Piler 3 |
| Cefnogi'r atyniadau presennol yn y Cymoedd (e.e. Parc Calon Lân a'r Llwybr Beicio Mynydd cysylltiedig, Parc Gwledig Bryngarw a Pharc Slip) drwy hwyluso eu marchnata, cynyddu'r gallu i gefnogi ymwelwyr a gwella'r ymwybyddiaeth o'r atyniadau hyn yn y Fwrdeistref Sirol drwy gefnogaeth gyfatebol. | CBSP / Gweithredwyr twristiaeth | Parhaus | Piler 1<br>Piler 3 |
| Gweithio mewn partneriaeth i nodi a hyrwyddo cyfleoedd newydd, yn enwedig mewn perthynas â chryfderau presennol y Fwrdeistref Sirol (er enghraifft, cyfleusterau beicio mynydd posibl, llwybr beicio Parc Rhanbarthol y Cymoedd, cyfleoedd Rest Bay, cyfleoedd yn y gwarchodfeydd natur fel Cynffig a Merthyr Mawr). | Pob partner allweddol | Parhaus | Piler 1 |
| Cefnogi datblygiad atyniadau a phrofiadau twristiaeth treftadaeth yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r enghreifftiau posibl yn cynnwys creu llwybr treftadaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr; llwybrau profiad treftadaeth ledled y Fwrdeistref Sirol; cefnogaeth i atyniadau fel Cwt 9, Amgueddfa Porthcawl, TŷSant Ioan, Neuadd y Dref Maesteg; a digwyddiadau sy'n dathlu cymeriadau nodedig fel Richard Pryce. | CBSP / Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr / Sector preifat | Blwyddyn 1 a 2 | Piler 1<br>Piler 3 |
| Cefnogi hyrwyddo bwyd a diod lleol mewn bwytai, siopau ac atyniadau ymwelwyr. | CBSP | Parhaus | Piler 1 |
| Gweithio gydag atyniadau hamdden ac ymwelwyr allweddol i gofnodi a chyfathrebu niferoedd blynyddol yr ymwelwyr. | CBSP / Gweithredwyr twristiaeth | Blwyddyn 2 | Piler 2<br>Piler 3 |




## PROFIAD YMWELWYR O SAFON

Mae profiad ymwelwyr cadarnhaol yn cael ei danseilio'n rhy aml gan ddiffyg sylw i fanylion – presenoldeb biniau sbwriel, presenoldeb a chyflwr toiledau cyhoeddus, cyfeirbwyntiau da, safonau bwyd ac ati. Gall sicrhau ein bod yn cael yr agweddau hyn yn iawn (a elwir yn 'sylfeini safonol' gan Croeso Cymru) gael sgil-effaith o ran amser aros, ymweliadau mynych, hyrwyddo ac enw da. Gall profiad ymwelwyr o safon gael ei effeithio hefyd gan y croeso gaiff pobl, neu'r ffordd caiff atyniad penodol neu lety ymwelwyr ei reoli – mae angen i gyfres sgiliau'r gweithlu lletygarwch adlewyrchu'n ddigonol eu rôl fel llysgenhadon ehangach ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Mae segmentau marchnad targed Croeso Cymru yn cynnwys 'archwilwyr annibynnol' sy'n gwerthfawrogi profiadau a llefydd dilys, rhywbeth y gall yr ardaloedd sydd heb eu darganfod gymaint ym Mhen-y-bont ar Ogwr ei gynnig. Drwy'r flaenoriaeth hon, ein nod ni yw sicrhau bod pob ymwelydd yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy gydol pob agwedd ar eu harhosiad.

**TABL 2: Cynllun Gweithredu Profiad Ymwelwyr o Safon**

| Cam Gweithredu | Partner/iaid Allweddol | Amserlen | Dolen i Strategaeth Economaidd CBSP |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda busnesau a phartneriaid i nodi gwelliannau i'r seilwaith twristiaeth ar draws y Fwrdeistref Sirol gyfan i sicrhau bod pob ymwelydd yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy gydol pob agwedd ar eu harhosiad. | CBSP / Croeso Cymru / Atyniadau a gweithredwyr twristiaeth | Blwyddyn 2 ymlaen | Piler 1 |
| Gweithio gyda sefydliadau partner i ddatblygu a hyrwyddo profiadau dilys i ymwelwyr ac fel rhan o les cymunedol. | CBSP / Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol AWEN | Blwyddyn 1 ymlaen | Piler 2<br>Piler 3 |
| Nodi meysydd lle mae galw am sgiliau yn y Fwrdeistref Sirol a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu, codi ymwybyddiaeth ar gyfer, a gweithredu cyfleoedd hyfforddi sy'n diwallu anghenion y diwydiant. | CBSP / darparwyr hyfforddiant / atyniadau a gweithredwyr twristiaeth | Parhaus | Piler 2 |
| Adolygu cyfleoedd i ymgorffori offer a chyfleusterau chwarae hygyrch mewn lleoliadau priodol i ymwelwyr (yn dilyn llwyddiant yr hyn a gyflwynwyd ym Mharc Gwledig Bryngarw). | CBSP / Croeso Cymru / Atyniadau a gweithredwyr twristiaeth | Parhaus | Piler 1 |
| Adolygu patrymau a chyfleoedd achub bywyd, yn unol â chyrchfannau cystadleuol. | CBSP / gweithredwyr gweithgarwch / RNLI | Blwyddyn 1 | Piler 1 |
| Parhau i lobïo am well trafnidiaeth gyhoeddus (yn enwedig gwasanaethau bysiau), annog ymestyn gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus gyda'r nos i ddatblygu'r economi nos, ac annog gweithredwyr gweithgareddau i hyrwyddo gwybodaeth am wasanaethau. | CBSP / Gweithredwyr bysiau / Sector preifat | Blwyddyn 1 | Piler 1 |
| Gwelliannau i wybodaeth i ymwelwyr, gan gynnwys cyfeirbwyntiau digonol ar gyfer cyfleusterau fel toiledau, caffis, cyfleusterau llogi beiciau a byrddau rhwyfo, arwyddion gwybodaeth i ymwelwyr. | CBSP / Sefydliadau partner e.e. sector preifat, Cadw | Parhaus | Piler 1 |
| Nodi cyfleoedd i ddatblygu gweithgareddau diwylliannol ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, gan gynnwys gwella llwybrau cerdded gyda chelf, theatr awyr agored, digwyddiadau cerddoriaeth, arwyddion / byrddau gwybodaeth ar gyfer asedau diwylliannol / hanesyddol o ddiddordeb, gweithgareddau dros dro. | CBSP / Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol AWEN | Blwyddyn 1 ymlaen | Piler 1<br>Piler 3 |

## CODI PROFFIL

Er bod Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweld effaith economaidd sylweddol gan dwristiaeth, nid yw'n cael ei gweld yn awtomatig fel cyrchfan i ymwelwyr y tu hwnt i dref glan môr draddodiadol Porthcawl. Felly mae gan godi proffil rôl hanfodol i'w chwarae o ran symud y canfyddiadau o Ben-y-bont ar Ogwr ymlaen ac arddangos yr ystod o brofiadau ac asedau o safon sydd gan y Fwrdeistref Sirol i'w cynnig. Yn wahanol i'r Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau blaenorol, mae'r ffocws wedi symud oddi wrth ddenu mwy o ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol, i ddenu math gwahanol o ymwelydd – un sy'n fodlon aros yn hirach ac felly gwario mwy o arian yn yr economi leol.

Mae'r gweithgareddau i helpu i gyflawni hyn yn cynnwys datblygu brand nodedig, a gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu ymgyrchoedd negeseuon cadarn mewn lleoliadau prysur (er enghraifft, mae Canolfan Ddylunwyr McArthurGlen yn denu miliynau o ymwelwyr bob blwyddyn, gyda llawer ohonynt yn teithio cryn bellter). Mae tirweddau nodedig y Fwrdeistref Sirol yn golygu bod galw mawr amdani fel lleoliad penodol ar gyfer y diwydiant teledu a ffilm; gallai annog a hwyluso'r math hwn o weithgarwch arwain at hwb hynod gyflym i'r potensial am ymwelwyr.



## TABL 3: Cynllun Gweithredu Codi Proffil

| Cam Gweithredu | Partner/iaid Allweddol | Amserlen | Dolen i Strategaeth Economaidd CBSP |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda phartneriaid i ymgymryd â rhaglen o deithiau ymgyfarwyddo gyda busnesau masnach teithio a gweithredwyr teithiau. | CBSP / Twristiaeth De Cymru | Blynyddol | Piler 2<br>Piler 3 |
| Nodi adnoddau i gydlynu gweithgarwch cysylltiadau cyhoeddus twristiaeth a chyd-fynd â chyfleoedd. | CBSP | Parhaus | Piler 3 |
| Defnyddio ymchwil marchnad ac adborth ymwelwyr i nodi ymgyrchoedd penodol sy'n targedu segmentau marchnad a meysydd twf. | CBSP / Croeso Cymru | Blynyddol | Piler 3 |
| Gweithio gydag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol i ddatblygu cyfleoedd a allai fod o fudd i'r gyrchfan ehangach. | Parc Rhanbarthol y Cymoedd / Awdurdodau Lleol Cyfagos | Blwyddyn 1 ymlaen | Piler 1<br>Piler 3 |
| Ehangu gwefan Croeso Pen-y-bont ar Ogwr i hyrwyddo ystod ehangach o asedau ac atyniadau ar draws y gyrchfan, gan ganolbwyntio'n benodol ar brofiadau thematig. | CBSP | Parhaus | Piler 1<br>Piler 3 |
| Nodi un pwynt cyswllt yn CBSP i fod yn gyfrifol am hyrwyddo'r awdurdod lleol i'r diwydiant teledu a ffilm, ac am gydlynu caniatadau a goresgyn heriau. | CBSP | Blwyddyn 1 | Piler 2<br>Piler 3 |
| Datblygu naratif ar y cyd am wahanol agweddau ar Ben-y-bont ar Ogwr (er enghraifft, am y dreftadaeth ddiwydiannol neu am Borthcawl fel cyrchfan) a all ddod o dan un brand a chael ei brynu gan y sector twristiaeth cyfan. | CBSP | Blwyddyn 1 | Piler 3 |
| Cefnogi sefydliadau i gydweithio a chydweithredu â sefydliadau rhanbarthol / cenedlaethol i hyrwyddo Pen-y-bont ar Ogwr fel cyrchfan i dwristiaid. | CBSP / atyniadau a gweithredwyr twristiaeth / sefydliadau partner eraill | Parhaus | Piler 2<br>Piler 3 |



## YMGORFFORI TWRISTIAETH GYNALIADWY

Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw twristiaeth gynaliadwy ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr mor ddatblygedig ag y gallai, neu y dylai, fod, a bod llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod cynaliadwyedd ac ymwybyddiaeth amgylcheddol yn rhan annatod o bob agwedd ar brofiad yr ymwelwyr. Ymhlith y pwyntiau gwerthu cryfaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae ei hamrywiaeth eang o atyniadau naturiol ac awyr agored mewn lleoliadau amgylcheddol sensitif; ac eto mae newid hinsawdd yn fygythiad real a chyfredol iawn i lawer o'r asedau hyn, fel y mae pwysau ymwelwyr. Mae cynhyrchu ôl troed carbon, gwastraff gormodol a llygredd sŵn o weithgareddau ymwelwyr yn effeithiau negyddol sy'n ymyrryd â hyfywedd a lles y cymunedau lleol. Mae arwyddion o newid hefyd – er enghraifft, rôl arloesol cyrsiau golff Pen-y-bont ar Ogwr sydd bellach yn lleoliadau golff cynaliadwy wedi'u hardystio gan y GEO.

### TABL 4: Ymgorffori Cynllun Gweithredu Twristiaeth Gynaliadwy

| Cam Gweithredu | Partner/iaid Allweddol | Amserlen | Dolen i Strategaeth Economaidd CBSP |
|---|---|---|---|
| Comisiynu astudiaeth teithio cynaliadwy ar gyfer twristiaeth ar gyfer Porthcawl i adolygu opsiynau i liniaru tagfeydd a phwysau ymwelwyr. | CBSP | Blwyddyn 1 | Piler 1<br>Piler 4 |
| Hyrwyddo cyfleoedd teithio llesol yn y Fwrdeistref Sirol ac o'i chwmpas drwy gyfeirbwyntiau da a hyrwyddo llwybrau o bob math yn effeithiol. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys hyrwyddo Llwybr Arfordir Cynaliadwy Pen-y-bont ar Ogwr rhwng Bae Trecco a chanol tref Porthcawl (ar ôl ei gwblhau yn 2023). | CBSP / gweithredwyr twristiaeth | Blwyddyn 2 ymlaen | Piler 1<br>Piler 4 |
| Hyrwyddo twristiaeth golff gynaliadwy yn y Fwrdeistref Sirol a chymell proses ardystio'r GEO gyda chyrsiau golff heb eu hachredu. | CBSP / busnesau golff | Parhaus | Piler 4 |
| Blaenoriaethu cynhyrchion twristiaeth sy'n darparu cynnig cynaliadwy, fel economi gylchol neu gynnyrch moesegol. | CBSP / Croeso Cymru | Parhaus | Piler 4 |
| Cydweithio i annog gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan mewn cyrchfannau ac atyniadau ymwelwyr. | CBSP / Croeso Cymru / sector preifat | Parhaus | Piler 1<br>Piler 4 |
| Dathlu rhagoriaeth twristiaeth gynaliadwy drwy gynllun gwobrwyo lleol. | CBSP | Blynyddol | Piler 4 |
| Defnyddio cyfalaf naturiol y Fwrdeistref Sirol i annog mwy o weithgarwch gan ymwelwyr a rhyngweithio iach â byd natur. | CBSP / atyniadau a gweithredwyr twristiaeth | Parhaus | Piler 4 |

## GWEITHREDU

Mae gwaith partneriaeth gweithredol yn hanfodol i sicrhau bod y camau gweithredu yn y Cynllun Rheoli Cyrchfannau hwn yn cael eu rhoi ar waith ac i hyrwyddo Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn llwyddiannus fel cyrchfan gydlynol. Mae llawer o ystyriaeth wedi bod i'r dull gorau posibl o weithio mewn partneriaeth o'r fath ac a ddylai hyn gynnwys creu fforwm newydd, ehangu fforwm sy'n bodoli eisoes, neu gydweithio rhwng fforymau a sefydliadau amrywiol yn unig. Mae dulliau gweithredu awdurdodau lleol cyfagos, a'r rhai pellach i ffwrdd, wedi cael eu hadolygu er mwyn penderfynu beth sy'n gweithio'n dda a ble gellir dysgu gwersi.

**Ystyrir mai'r prif elfennau ar gyfer dull partneriaeth newydd o weithredu ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw:**

- Annog cyfranogiad busnesau a'r gymuned – sicrhau bod pobl yn gallu gweld sut gall twf yn yr economi ymwelwyr fod o fudd iddynt a'r rôl sydd ganddynt i'w chwarae. Gallai ailadeiladu rhwydwaith diwydiant ddechrau drwy gynnal digwyddiadau rheolaidd, pob un yn seiliedig ar fater 'byd real' wedi'i ddiffinio'n glir.

- Cydweithio â fforymau a strwythurau presennol sydd â rôl i'w chwarae mewn rheoli a marchnata cyrchfannau, er enghraifft, Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, y Bartneriaeth Arfordirol a Pharc Rhanbarthol y Cymoedd.

- Bod angen i gyfathrebu fod yn gyfathrebu dwy ffordd, er mwyn gallu rhannu syniadau, gyda thrafodaeth agored ar faterion o ddiddordeb a phryder.

## MONITRO

Mae cyfres o fesurau perfformiad wedi cael eu nodi ar gyfer monitro cynnydd y Cynllun Rheoli Cyrchfannau o ran ei bedwar maes blaenoriaeth. Mae'r ychydig flynyddoedd diwethaf wedi dangos pa mor gyflym y gall pethau newid a phwysigrwydd bod yn hyblyg ac ystwyth i ymateb i amgylchiadau sy'n newid. Bydd monitro ac adolygu rheolaidd yn sicrhau y gellir ymateb i heriau wrth iddynt godi. Cynigir y mesurau perfformiad canlynol.

| Mesurau perfformiad | Dull |
|---|---|
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros yn cynyddu | Data STEAM blynyddol |
| Effaith economaidd twristiaeth yn dychwelyd i Lefelau 2019 | Data STEAM blynyddol |
| Cynnydd mewn gwelyau llety â gwasanaeth | Arolwg gwelyau |
| Gwell boddhad ymhlith ymwelwyr | Arolwg Croeso Cymru / arolwg lleol |
| Canfyddiad ac ymwybyddiaeth o Ben-y-bont ar Ogwr fel lle i wella | Edrych eto ar ymchwil canfyddiad ar ddiwedd cyfnod y Cynllun Rheoli Cyrchfannau<br><br>Ymgysylltu â gweithredwyr masnach |



Cyngor Bwrdeistref Sirol
Pen-y-bont ar Ogwr
BRIDGEND
County Borough Council

Am fwy o wybodaeth cysylltwch:

**Ffon: (01656) 815332**

**Ebost: tourism@bridgend.gov.uk**